



# EIP WALES

Cydweithio er ffyniant gwledig  
Collaborating for rural success



# menter a busnes


# Lleihau allyriadau amonia o systemau cynhyrchu brwyliaid

## Cefndir

Mae'r galw cynyddol am gywion ieir wedi cynnig cyfleoedd ymarferol ar gyfer arallgyfeirio i nifer o ffermwyr yng Nghymru. Un o oblygiadau annatod unrhyw fath o ffermio dofednod yw cynhyrchiant amonia, wrth i'r wradau ddadelfennu'n naturiol o fewn tail dofednod. Gall allyriadau amonia o ganlyniad i gynhyrchu dofednod arwain at nifer o effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd, lles adar a ffactorau economaidd yn ymwneud â chynhyrchu brwyliaid.

Mae allyriadau uchel o amonia yn un o'r prif resymau dros wrthod rhoi caniatâd neu atal cynlluniau i ehangu. Mae siediau modern gyda gwell systemau awyru a gwresogi ynghyd â gwella'r deunydd gwely sy'n cael ei greu wedi lleihau allyriadau amonia, ond mae'n bosibl bod modd gwneud gwelliannau pellach drwy ddefnyddio ychwanegion.

Mae defnyddio ychwanegion sy'n lleihau amonia, naill ai drwy eu hychwanegu'n uniongyrchol at y deunydd gwely neu ei gyflenwi i'r adar drwy'r dŵr yfed, yn cynnig dull ychwanegol o leihau cynhyrchiant amonia ymhellach.



Mae dau gynhyrchydd brwyliaid masnachol profiadol, gydag adeiladau modern a blynyddoedd o brofiad o gynhyrchu dofednod ar gyfer marchnad y DU, yn cymryd rhan yn y prosiect blwyddyn hwn i edrych sut y gall ychwanegion leihau eu hallyriadau amonia.

## Cynllun y prosiect

Bydd tri gwahanol ychwanegyn lleihau amonia sydd ar gael yn fasnachol yn cael eu profi. Bydd pob un ohonynt yn cael eu defnyddio ar gyfer un gylchred gynhyrchu (2 fis) ar y ddwy fferm.

Bydd y ffactorau amrywiol canlynol yn cael eu monitro a'u cofnodi ar gyfer pob triniaeth:

1. Lefelau amonia yn y siediau
2. Tymheredd o fewn y siediau
3. Cyflwr gwaelod y traed, yr egwyd a sgorio symudiad
4. Cyflwr y plu
5. Cyflwr y deunydd gwely
6. Cymedr pwysau byw'r adar
7. Cyfradd marwoldeb yr haid
8. Cymeriant bwyd

Mae'r gwelliannau posibl o ran iechyd/perfformiad anifeiliaid a lleihad mewn allyriadau amonia a gynigir drwy ddefnyddio'r ychwanegion hyn yn cael eu trafod yn helaeth. Bydd y prosiect hwn yn helpu ffermwyr i asesu a ydynt yn adnodd defnyddiol iddyn nhw er mwyn lleihau lefelau amonia ar eu ffermydd.



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar  
gyfer Datblygu Gwledig  
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig  
European Agricultural Fund for  
Rural Development  
Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government